

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Hybrid a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar [gael yma](#).

Mae recordiad o'r Cyfarfod ar [gael yma](#).

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem ar yr agenda yn Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswilt sydd yn ei deitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Naomi Marshallsea (Maer), Y Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Amelia Collins, Marianne Cowpe, Brandon Dodd, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

1. CYHOEDDIAD –

Cyn dechrau busnes, tynnodd y Maer sylw at nifer o faterion cadw tŷ a gwnaeth y datganiad canlynol: “A gaf i atgoffa pawb a oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio dros y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol”.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr Gillian Bruce a Carys Stallard.

3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

4. [ETHOL MAER](#) –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Protheroe ac eiliwyd gan y Cynghorydd Iannucci-Williams y dylid ethol y Cynghorydd Carys Stallard yn Faer. I weld areithiau ynghylch yr enwebiadau, cliciwch [yma](#).

Yn dilyn pleidlais, fe

PENDERFYNWYD – Y dylid ethol y Cynghorydd Carys Stallard yn Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

5. PENODI DIRPRWY FAER –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Payne ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ewan Goodjohn y dylid ethol y Cynghorydd Belinda Loveluck-Edwards yn Ddirprwy Faer.

I weld yr areithiau llawn ynghylch yr enwebiadau, cliciwch [yma](#).

Yn dilyn pleidlais, fe

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi'r Cynghorydd Belinda Loveluck-Edwards yn Ddirprwy Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Gwnaeth y Dirprwy Faer newydd ei phenodi'r Datganiad Statudol o Dderbyn Swydd a'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr, cafodd ei harwisgo â Chadwyn y Swydd a chymerodd y Gadair.

6. PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL AC ANERCHIAD Y MAER SY'N YMDDEOL –

Yn absenoldeb y Maer, rhannodd y Dirprwy Faer eu bod yn falch o enwebu'r Cynghorydd Marshallsea y llynedd, a'u bod wedi gwneud y Cyngor yn falch yn eu gwaith o gefnogi trigolion i ddod â chymunedau ynghyd trwy ymweld ag amrywiol grwpiau, sefydliadau lleol ac ysgolion a diolch iddynt am eu blwyddyn yn y swydd. Myfyriasant fod y Cynghorydd Marshallsea wedi gweithredu gydag urddas a hiwmor drwy gydol y flwyddyn wrth helpu trigolion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed a nodasant yr ymgyrch "Arwyr Tawel" fel cyflawniad mwyaf y Maer yn ystod y flwyddyn, gan godi ymwybyddiaeth o unigolion a grwpiau bach o fewn cymunedau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Myfyriodd y Cynghorydd Marshallsea ei bod yn anrhydedd gwasanaethu fel Maer, ac roedd sawl uchafbwynt, gan gynnwys cwrdd â hyfforddeion yn Vale Plus a Vision 2021, ochr yn ochr â gweithio gyda Vale Plus. Myfyriasant eu bod wedi ymdrechu i ddod ag amrywiaeth i ddiwyddiadau, fel diwrnod VE, gydag aelod o Gyngor Ieuenctid y Fro fel eu cydymaith, a disgyblion Ysgol Gynradd High Street yn canu ac yn meithrin cysylltiadau rhyng-genhedlaethol â chyn-filwyr.

Myfyriasant ymhellach ar eu gwaith yn dathlu gwirfoddolwyr ledled y Fro a diolch i'r rhai a helpodd i wella cymunedau lleol, a rhannu enghreifftiau fel Replant Rhoose, casglu sbwriel bob dydd yn y Barri, cwrdd â phlant a gasglodd fwyd ar gyfer y Fferyllfa Fwyd yn y Wig, ac oedolion a redodd y Fferyllfa Fwyd drwy gydol y flwyddyn.

Fe wnaethon nhw orffen drwy ddiolch i rieni a pherthnasau am eu cefnogaeth gyda gofal plant yn ystod y flwyddyn, ochr yn ochr â'u gŵr am eu cefnogaeth, a diolch i swyddogion o fewn y Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys cefnogaeth y Maer, Charlotte, am eu cefnogaeth a'u cofleidio syniadau newydd i wella gwaith y Maer. Yn olaf, fe wnaethon nhw drosglwyddo eu dymuniadau i'r Maer a'r Dirprwy Faer presennol cyn y flwyddyn nesaf.

7. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER NEU'R PRIF WEITHREDWR –

Trosglwyddodd y Dirprwy Faer eu diolch i'r holl Gynghorwyr a oedd wedi sefyll yn ystod Etholiad y Senedd yn ddiweddar a llongyfarchodd y cyn-Aelod, y Cyngorydd Mark Hooper, ar eu hethol i'r Senedd.

Cyngorodd yr Arweinydd fod y Cyngor heddiw wedi ffarwelio â'r olaf o'r 58 o deuluoedd Affganaidd a oedd yn aros yn yr Holiday Express Inn, Y Rhws, tra roeddent yn cael eu hailsefydlu mewn cartrefi parhaol ledled y Deyrnas Unedig a dymunodd lwyddiant iddynt yn y dyfodol. Nododd yr Arweinydd fod y gwesty i fod i ddychwelyd i ddefnydd cyhoeddus yn fuan a diolchodd i bawb a gyfrannodd at y canlyniad cadarnhaol, gan gynnwys staff, ysgolion, sefydliadau cymunedol a'r trigolion, gan adlewyrchu bod cysylltiadau parhaol wedi'u ffurfio wrth i deuluoedd ymgysylltu â'r gymuned, gyda phrofiad nodedig o sut y buont yn rhan o goffáu Diwrnod y Cadoediad.

Diolchodd y Prif Weithredwr i gydweithwyr a oedd wedi gweithio i gefnogi'r etholiad yr wythnos diwethaf, gan nodi effaith ffiniau etholaethau a systemau pleidleisio newydd, gyda diolch arbennig i'r tîm Gwasanaethau Etholiadol a thimau eraill a oedd yn rhan o'r paratodau ar gyfer yr etholiad.

8. TREFNIADAU GWEITHREDOL: AELODAETH Y CABINET A PHORTFFOLIOS (PW) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyngorodd yr Arweinydd y byddai Aelodau'r Cabinet a'r Portffolios yn aros yr un fath â'r flwyddyn Ddinesig flaenorol.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi, yn unol â chyngor yr Arweinydd, y byddai'r Cyngorydd B.E. Brooks yn Ddirprwy Arweinydd a bod Aelodau'r Cabinet, ynghyd â manylion eu portffolios fel y'u rhestrir isod a'r rolau "Hyrwyddwr" dynodedig fel y'u nodir yn y Atodiad A Diwygiedig i'r adroddiad, yn cael eu nodi:

- Y Cyngorydd L. Burnett – Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau
- Y Cyngorydd B.E. Brooks – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy
- Y Cyngorydd R.M. Birch – Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

- Y Cyngorydd G. John – Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles
- Y Cyngorydd S. Sivagnanam – Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol
- Y Cyngorydd S.D. Perkes – Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid
- Y Cyngorydd E. Williams – Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Y Cyngorydd M.R. Wilson – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu.

(2) Y dylai Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd barhau i gael eu dynodi'n Hyrwyddwyr Craffu a Datblygu Aelodau'r Cyngor yn y drefn honno.

(3) Y dylid nodi taliadau Cyflogau Uwch y Cyngor ar gyfer 2026/27 fel y nodir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor.

9. PWYLLGORAU CRAFFU: PENODI, AELODAETH, CYLCH GORCHWYL A DYRANNU SWYDDI'R CADEIRYDD (PW) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd yr Arweinydd sylw at ddyrannu Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn unol â chyngor Arweinwyr y Grŵp ac fel y nodwyd yn y wybodaeth atodol ddiwygiedig a oedd wedi'i dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD y Pwyllgorau Craffu, ynghyd â'u Haelodaeth a'u Cylch Gorchwyl fel y'u nodir yn Atodiad B a'r Wybodaeth Atodol Ddiwygiedig i'r adroddiad, yn cael eu penodi ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ganlynol, gan nodi:

- Byddai'r Cyngorydd S. Campbell yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Adnoddau
- Byddai'r Cyngorydd I. Perry yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Lle
- Byddai'r Cyngorydd M.J.G. Morgan yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda
- Byddai'r Cyngorydd B. Dodd yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda
- Byddai'r Cyngorydd N. Marshallsea yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda ac nid y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda fel y'i cynhwysir yn y wybodaeth atodol

- Byddai'r Cynghorydd E. Goodjohn yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda ac nid y Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda fel y'i cynhwysir yn y wybodaeth atodol
- Mae swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Adnoddau o ganlyniad i orfodaeth i Blaid Cymru ildio sedd oherwydd cydbwysedd gwleidyddol.

(2) Y BOD dyraniad Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu penodol, fel y'u hysbysir gan yr Arweinwyr Grŵp perthnasol fel y nodir ym mharagraffau 4.1 i 4.3 o'r adroddiad ac yn y Wybodaeth Atodol, fel y dangosir isod, yn cael ei nodi:

- Pwyllgor Craffu Adnoddau – Y Cynghorydd J. Protheroe.
- Pwyllgor Craffu Lleoedd – Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby.
- Pwyllgor Craffu Byw'n Dda – Y Cynghorydd A.M. Collins.
- Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda – Y Cynghorydd S.J. Haines.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

10. PWYLLGORAU LLED-FARNWROL, PWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL: PENODI, CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH (PW) –

Atgoffwyd yr Aelodau gan yr adroddiad o'r angen i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ar 5 Mai, 2017 sy'n llywodraethu maint a chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio.

Mae Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 a ddaeth ag Adran 39 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ac a roddodd dehongliad manwl ohoni, i'r graddau yr oedd yn ymwneud â maint a chyfansoddiad Pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaethau.

Yn dilyn pleidlais, fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Pwyllgorau Lled-farnwrol, Pwyllgorau a Chyrff Eraill, ynghyd â'u Cylch Gorchwyl (Atodiad B i'r adroddiad) a'u Haelodaeth, fel y nodir yn y Wybodaeth Atodol Ddiwygiedig fel y'i dosbarthwyd cyn y cyfarfod ac a gyflwynwyd gyda'r adroddiad, yn cael eu penodi ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ganlynol.

(2) CYTUNO, o ystyried yr angen i gydymffurfio â maint a chyfansoddiad Rheoliadau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 wrth bennu maint a chyfansoddiad y Pwyllgor Cynllunio, ar yr aelodaeth fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.3 i 2.5 yr adroddiad.

(3) Y dylai'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg fod yn gynrychiolydd ar Gydbwyllgor Gwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De.

(4) PENODI'R Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol a Chadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, gyda'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn cael eu penodi'n eilyddion.

(5) Y bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau yn cynrychioli'r Cyngor fel Cyfranddaliwr y Cwmni ac a fydd yn cael cyngor gan Banel Cyngori Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys Swyddogion y Cyngor ar Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol "The Big Fresh Catering Company". Rheswm dros y penderfyniadau (1-5) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

11. DYDDIADAU CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR (PW) –

PENDERFYNWYD – nodi y cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor ar y dyddiadau a ganlyn:

13 Gorffennaf 2026
28 Medi 2026
7 Rhagfyr 2026
8 Mawrth 2027
26 Ebrill 2027.

12. ETHOL CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU (PW) –

Y Pwyllgorau y byddai Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael eu penodi ar eu cyfer yn y Cyfarfod Blyneddol oedd yr holl gyrrff yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol (y gellir eu gweld yn Eitemau 7 ac 8 ar yr Agenda), ac eithrio'r rhai a ddangosir yn Eitem 10 ar yr Agenda lle mae darpariaethau deddfwriaethol, neu drefniadau penodol amgen, yn berthnasol ar hyn o bryd.

Yn dilyn cyfres o bleidleisiau, fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) Penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau fel y nodir isod ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod:

<u>Apeliadau:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd I.R. Buckley
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby

<u>Cyswllt Cymunedol:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson

<u>Gwasanaethau Democrataidd:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson Y Cynghorydd N.C. Thomas
<u>Adolygu Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.M. Payne Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson
<u>Ymdeol yn Gynnar/ Dileu Swyddi:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake Y Cynghorydd N.C. Thomas
<u>Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd C. Stallard Y Cynghorydd Emma Goodjohn
<u>Ymchwilio:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.M. Payne Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams
<u>Cynllunio:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd N.C. Thomas Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Trwyddedu Diogelwch Cyhoeddus:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Trwyddedu Statudol:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Penodiad Uwch Reoli:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Arweinydd (Y Cynghorydd L. Burnett) Dirprwy Arweinydd (Y Cynghorydd B.E. Brooks)
<u>Ymddiriedolaeth:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd E. Penn Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Cydbwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch Y Cynghorydd I.R. Buckley
	Is-Gadeirydd- Anrhydeddus	I'w penodi o blith y 7 cynrychiolydd o'r Sectorau Gwirfoddol ac Iechyd
<u>Deddf Ystâd yr Eglwys Yng Nghymru:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson Y Cynghorydd P. Drake

(2) Y dylid delio â'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau sy'n weddill fel y nodir yn yr adroddiad, yn amodol ar nodi bod y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb i gael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau penodol a oedd yn berthnasol ar hyn o bryd neu ddeddfwriaeth berthnasol.

13. RHESTR TALIADAU'R AELODAU 2026-27 (PW) –

Roedd yr adroddiad yn nodi Rhestr Taliadau'r Aelodau ar gyfer 2026/27 (Atodiad A Diwygiedig) yn unol â phenderfyniadau Adroddiad Blynyddol ar Daliadau'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC) 2026/27. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Rhestr Taliadau'n flynyddol a rhannu copi o'r Rhestr gyda'r DBCC hefyd.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r Rhestr Taliadau drafft ar gyfer Aelodau 2026-27 (Atodiad A Diwygiedig) a rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i gwblhau'r Rhestr Taliadau drafft ar gyfer Aelodau i adlewyrchu'r penodiadau a wnaed yn y Cyngor Blynyddol ochr yn ochr â'i chyhoeddi ar Wefan y Cyngor a'i rhannu gyda Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC).

(2) Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ddiweddarau Rhestr Taliadau'r Aelodau, i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol i Rhestr 2026-2027 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn Ddinesig er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth y Cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgorau neu o ganlyniad i unrhyw Adroddiadau Atodol a gyhoeddir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC).

Rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thaliadau Aelodau.